



Cynnwys

1. Cefndir.....	1
2. Cyfnod yr ymgynghoriad a dosbarthu'r dogfennau ymgynghori.....	1
3. Ymatebion.....	2
4. Yr ymgynghoriad.....	2
5. Crynodeb.....	3
6. Y camau nesaf.....	3

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad anffurfiol – crynodeb o ymatebion

1. Cefndir

Drwy ymgynghoriad a gynhaliwyd dros gyfnod o ddwy wythnos, ceisiodd Llywodraeth Cymru farn ar gynigion i newid agweddau ar bysgodfa cregyn moch Cymru.

Mae'r newidiadau arfaethedig canlynol yn berthnasol i'r cyfnod trwydded cregyn moch ar gyfer 2023–2024, a fydd yn dechrau ar 1 Mawrth 2023:

- Ffi'r drwydded a sut y cafodd ei chyfrifo
- Un newid bach a wnaed i amodau'r drwydded
- Gostyngiad yn y Terfyn Dal Blynyddol

Amodau trwydded cregyn moch arfaethedig ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Mawrth 2023 a 28 Chwefror 2024

2. Cyfnod yr ymgynghoriad a dosbarthu'r dogfennau ymgynghori

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 15 a 28 Tachwedd yn gynhwysol.

Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar wefan LLYW.CYMRU ac anfonwyd llythyr at yr holl bysgotwyr cofrestredig yng Nghymru ynghyd â physgotwyr eraill y mae'n hysbys eu bod yn pysgota am gregyn moch ym mharth Cymru, a phrynwyr / proseswyr cregyn moch.

Roedd yr ymatebwyr yn gallu anfon eu hymateb drwy neges e-bost neu drwy ddarparu ymateb ysgrifenedig.

3. Ymatebion

28 Tachwedd 2022

Dymuna Llywodraeth Cymru ddiolch i bawb a roddodd o'u hamser i gyflwyno'u barn ac ymateb i'r ymgynghoriad. Caiff yr holl ymatebion eu hystyried cyn cyflwyno'r amodau trwydded.

Yn ystod y cyfnod ymgynghori, cafwyd ymatebion gan amrediad o unigolion sydd â buddiant ym mhysgodfa cregyn moch Cymru.

O'r ddau ymateb, nodwyd sylwadau ar amodau'r drwydded yn un ohonynt, ac yn y llall nodwyd sylwadau'n ymwneud â mesurau rheoli'r bysgodfa cregyn moch yn eu cyfanrwydd. Rydym eisoes wedi ymgynghori ar y mesurau hynny, yn 2020 ac eto yn 2021 ac, er ein bod wedi nodi'r sylwadau, ni fyddwn yn ymdrin â nhw eto yn yr adroddiad hwn.

4. Yr ymgynghoriad

Ceisiodd yr ymgynghoriad farn ar ffi arfaethedig y drwydded a'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i'w phennu, tynnu un o amodau'r drwydded, peidio â newid nac ychwanegu at weddill yr amodau, lleihau'r Terfyn Dal Blynyddol gan 10% a gosod Terfyn Dal Misol o 50 tonnell. Bydd yn ofynnol i unrhyw un sydd am bysgota am gregyn moch yn fasnachol, ym mharth Cymru, gan ddefnyddio potiau, feddu ar drwydded. Bydd yr amodau hyn yn berthnasol i gyfnod y drwydded, sef rhwng 1 Mawrth 2023 a 28 Chwefror 2024.

Ffi'r drwydded cregyn moch a'r fethodoleg ar gyfer ei chyfrifo

Dim sylwadau

Tynnu un o amodau'r drwydded

Dim sylwadau

Dim newidiadau nac ychwanegiadau at yr amodau sydd eisoes yn weithredol
--

Nododd un o'r ymatebwyr sylwadau ynglŷn ag effeithiau cyfyngiad gofodol ar ei fusnes bach.
--

Lleihau'r Terfyn Dal Blynyddol gan 10%

Dim sylwadau

Terfyn Dal Misol cychwynnol o 50 tonnell

Dim sylwadau

Arall

Nododd un o'r ymatebwyr fod ganddo bryderon ynglŷn â ph'un a yw'n ofynnol cael hanes blaenorol er mwyn cael trwydded, ac a allai'r drwydded cregyn moch effeithio ar werth trwydded bysgota'r cwch.

5. Crynodeb

Cafwyd dau sylw yn ystod y cyfnod ymgynghori anffurfiol. Roedd un o'r sylwadau'n ymwneud â sut y byddai cyfyngiadau gofodol ar ardal lle mae'r ymatebydd yn pysgota yn effeithio ar ei fusnes. Cododd ymatebydd arall bryderon ynglŷn â ph'un a oes angen cael hanes blaenorol er mwyn cael trwydded, ac a fydda'n effeithio ar werth ei drwydded bysgota.

6. Y camau nesaf

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi ystyried yr holl ymatebion a sylwadau a gafwyd. Nesaf, bydd swyddogion yn paratoi briff i'r Gweinidog ar y canlyniadau.

Mae swyddogion yn disgwyl gallu agor y bysgodfa cregyn moch drwyddedig ar 1 Mawrth 2023.

Rydym yn rhagweld y bydd cyfnod ar gyfer cyflwyno ceisiadau am drwydded yn agor yn hwyrach yn ystod y mis hwn, a bydd swyddogion yn darparu gwybodaeth ar gyfer yr holl bysgotwyr bryd hynny.

Bydd unrhyw amodau trwydded ychwanegol sydd eu hagen i gydymffurfio â Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 a Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau Morol Alltraeth 2017 yn cael eu cadarnhau cyn i'r cyfnod trwyddedu cyntaf ddechrau ar 1 Mawrth 2023.